Cyllid & Thollau EF

# Ffurflen hawlio Budd-dal Plant

## Hawlio ar-lein

Gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein i hawlio Budd-dal Plant neu i ychwanegu plentyn arall at hawliad sy'n bodoli eisoes.

Mae hawlio ar-lein yn gyflym ac yn hawdd, fel y mae drwy ap CThEF, a gallech gael eich taliad cyntaf ymhen cyn lleied â 3 diwrnod.

I hawlio ar-lein, ewch i www.gov.uk/budd-dal-plant/sut-i-hawlio

Gallwch fwrw golwg dros eich hawliad a'i reoli'n gyflym ac yn hawdd drwy lawrlwytho ap CThEF.

Os bydd angen i chi anfon mwy o wybodaeth atom, byddwn yn rhoi gwybod i chi.

Os na allwch hawlio ar-lein, llenwch y ffurflen hon ac anfonwch hi atom.

## A yw'ch incwm chi neu incwm eich partner yn fwy na £60,000?

Os oes gennych chi neu'ch partner incwm net wedi'i addasu (ANI) unigol sy'n fwy na £60,000, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'r person sydd â'r incwm uchaf dalu tâl treth ar yr holl Fudd-dal Plant a gewch, neu ar ran ohono. Tâl Treth Budd-dal Plant Incwm Uchel yw'r enw ar hwn.

Incwm net wedi'i addasu (ANI) yw cyfanswm incwm trethadwy unigolyn, gan gynnwys unrhyw fudd-daliadau trethadwy cyn unrhyw Lwfansau Personol a llai rhyddhadau treth penodol.

**Mae'n rhaid chi wirio a yw'ch ANI unigol chi neu'ch partner yn fwy na £60,000 bob blwyddyn yr ydych yn hawlio Budd-dal Plant – er mwyn sicrhau eich bod yn talu'r tâl treth cywir.**

O haf 2025 ymlaen, gallwch dalu'r tâl drwy'ch cod treth TWE. Ewch i GOV.UK a chwilio am 'High Income Child Benefit Charge'. Os oes angen i chi gyflwyno Ffurflen Dreth Hunanasesiad, dylech dalu'r tâl drwy'ch Ffurflen Dreth bob blwyddyn. Efallai y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth o unrhyw daliadau Budd-dal Plant i'n helpu ni i gyfrifo'ch Tâl Treth Budd-dal Plant Incwm Uchel (HICBC) chi, neu HICBC eich partner.

Gallwch ddysgu rhagor, gan gynnwys faint y bydd yn rhaid i chi, o bosibl, ei dalu yn www.gov.uk/tal-treth-budd-dal-plant

**Efallai y byddwch yn penderfynu peidio â chael taliadau Budd-dal Plant – os felly, ni fydd y tâl treth yn berthnasol. Mae'n dal i fod yn bwysig eich bod yn hawlio Budd-dal Plant** i ddiogelu'ch Pensiwn y Wladwriaeth (byddwch yn cael credydau Yswiriant Gwladol hyd nes bo'ch plentyn yn troi'n 12 oed) a helpu'ch plentyn i gael ei rif Yswiriant Gwladol yn awtomatig pan fydd yn 16 oed.

## Sut mae'r tâl treth yn gweithio

| Mae gennych chi a'ch partner fel eich gilydd incwm unigol sy'n llai na £60,000 | Mae gan y person sydd â'r incwm uchaf incwm sydd rhwng £60,000 ac £80,000 | Mae gan y person sydd â'r incwm uchaf incwm sy'n fwy nag £80,000 |
|---|---|---|
| ↓ | ↓ | ↓ |
| Ni fydd yn rhaid i chi dalu'r tâl treth oni bai y bydd eich incwm chi, neu incwm eich partner, yn mynd dros £60,000 yn ystod unrhyw flwyddyn yn y dyfodol | Bydd y Budd-dal Plant a gewch chi neu'ch partner yn fwy na'r tâl treth. Mae'n rhaid i'r person sydd â'r incwm uchaf roi gwybod i CThEF a thalu'r tâl treth drwy Hunanasesiad neu TWE. Fel arall, gallwch benderfynu peidio â chael taliadau Budd-dal Plant. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/tal-treth-budd-dal-plant | Bydd y Budd-dal Plant a gewch chi neu'ch partner yr un peth â'r tâl treth. Gallwch benderfynu peidio â chael y taliadau Budd-dal Plant. Fel arall, mae'n rhaid i'r person sydd â'r incwm uchaf roi gwybod i CThEF a thalu'r tâl treth drwy Hunanasesiad neu TWE. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/tal-treth-budd-dal-plant |
| | ↓ | ↓ |

Dylech lenwi'r ffurflen hon a'i hanfon atom, hyd yn oed os penderfynwch beidio â chael taliadau Budd-dal Plant. Os na hoffech gael taliadau Budd-dal Plant, atebwch 'Nac ydw' i gwestiwn 62

## Sut i lenwi'r ffurflen hon

Mae angen i chi wneud y canlynol:

- ateb yr holl gwestiynau sy'n berthnasol i chi, gan ysgrifennu'n glir mewn priflythrennau
- anfon y dogfennau atom yr ydym yn gofyn amdanynt i osgoi oedi i'ch hawliad

Dim ond **hyd at** 3 mis y gallwn ni ôl-ddyddio hawliadau Budd-dal Plant. Felly, hyd yn oed os nad yw'r dogfennau i gyd gennych, gwnewch eich hawliad nawr ac anfonwch y dogfennau hyn atom cyn gynted ag y gallwch.

I gael rhagor o wybodaeth am Fudd-dal Plant, ewch i www.gov.uk/budd-dal-plant

I gael help i lenwi'r ffurflen hon, darllenwch CH2 Nodiadau, 'Budd-dal Plant: Cael eich hawliad yn iawn'.

**Peidiwch ag oedi cyn hawlio oherwydd dim ond hyd at dri mis y gellir ôl-ddyddio Budd-dal Plant**

# 1 Amdanoch chi

**1** **A oes gennych rif Yswiriant Gwladol?**
Darllenwch dudalen 3 o'r CH2 Nodiadau.

Nac oes ☐

Oes ☐ Os Oes, rhowch eich rhif Yswiriant Gwladol

Q Q 1 2 3 4 5 6 A

**2** **Eich teitl**
Er enghraifft Mrs, Miss, Ms, Mr neu Dr

**3** **Eich enw olaf neu enw teuluol**

**4** **Eich enw cyntaf ac unrhyw enwau canol**

Enw cyntaf

Enwau canol

**5** **A ydych erioed wedi cael eich adnabod yn ôl unrhyw enwau olaf neu enwau teuluol eraill, gan gynnwys eich enw cyn priodi?**

Nac ydw ☐

Ydw ☐ Os Ydw, nodwch yr enwau eraill

Enwau eraill

**6** **Eich dyddiad geni**

D D M M B B B B

At ddefnydd y swyddfa 1 ☐

**7** **Eich cyfeiriad**

Cod post

**8** **A ydych wedi byw yn y cyfeiriad hwn am fwy na 12 mis?**

Nac ydw ☐ Os Nac ydw, ewch i gwestiwn 9

Ydw ☐ Os Ydw, ewch i gwestiwn 10

**9** **Rhowch eich cyfeiriad diwethaf**

Cod post

**10** **Eich rhif ffôn symudol neu rif llinell dir, os nad oes gennych ffôn symudol**
Mae'n bosibl y byddwn yn cysylltu â chi ynghylch eich hawliad. Mae'n bosibl na fydd ein rhif yn weladwy os byddwn yn eich ffonio.

Rhif ffôn

**Pa adeg o'r dydd sydd orau gennych i ni eich ffonio?**
Er enghraifft, yn y bore, yn y prynhawn neu gyda'r hwyr (dim ond hyd at 6pm y gallwn ffonio).

**11** **Beth yw'ch cenedligrwydd?**
Dangosir hwn ar eich pasbort os oes gennych un, er enghraifft, Prydeinig, Gwyddelig, Ffrengig, Pwylaidd.

Cenedligrwydd

**12** **A ydych wedi hawlio Budd-dal Plant ar gyfer unrhyw blant o'r blaen?**

Nac ydw ☐ Os Nac ydw, ewch i gwestiwn 14

Ydw ☐ Os Ydw, ewch i gwestiwn 13

**13** **A ydych yn hawlio Budd-dal Plant ar hyn o bryd, hyd yn oed os nad ydych yn cael taliadau?**

Nac ydw ☐ Os Nac ydw, ewch i gwestiwn 14

Ydw ☐ Os Ydw, rhowch enw llawn a dyddiad geni'r plentyn hynaf y mae gennych hawl i, neu rydych yn cael, Fudd-dal Plant ar ei gyfer, yna ewch i gwestiwn 14

**Enw olaf y plentyn**

**Enw cyntaf y plentyn**

**Enwau canol y plentyn**

**Dyddiad geni'r plentyn**

D D M M B B B B

## 1 Amdanoch chi parhad

**14** **Rhowch wybod i ni ble'r ydych wedi byw?**

- ☐ Wastad wedi byw yn y DU, ewch i gwestiwn 22
- ☐ Wedi byw yn y DU a thramor, ewch i gwestiwn 15
- ☐ Erioed wedi byw yn y DU, ewch i gwestiwn 15

**15** **A ydych fel arfer yn byw yn y DU?**
Darllenwch dudalen 3 o'r CH2 Nodiadau.

Nac ydw ☐ Os Nac ydw, ewch i gwestiwn 16

Ydw ☐ Os Ydw, ewch i gwestiwn 17

**16** **Ym mha wlad rydych yn byw fel arfer?**

Gwlad

**17** **Rhowch y dyddiad y gwnaethoch gyrraedd y DU**

D D M M B B B B

**18** **A ydych yn destun rheolaeth fewnfudo ar hyn o bryd, neu wedi bod ar unrhyw adeg yn ystod y 6 mis diwethaf?**
Darllenwch dudalen 3 o'r CH2 Nodiadau.

Nac ydw ☐ Os Nac ydw, ewch i gwestiwn 20

Ydw ☐ Os Ydw, ewch i gwestiwn 19

At ddefnydd y swyddfa 2 ☐

**19** **Os ydych wedi bod yn destun rheolaeth fewnfudo o fewn y 3 mis diwethaf, rhowch y dyddiad pan gafodd eich statws mewnfudo ei ganiatáu**

D D M M B B B B

**20** **Beth yw'ch statws cyflogaeth?**
Ticiwch y blwch neu'r blychau sy'n berthnasol.
Dim ond os ydych erioed wedi byw y tu allan i'r DU y mae angen i chi ateb y cwestiwn hwn.

- ☐ Chwilio am waith yn y DU
- ☐ Cyflogedig yn y DU
- ☐ Hunangyflogedig yn y DU
- ☐ Dim un o'r rhain - mae gen i ddigon o arian i gynnal fy nheulu yn y DU

## Amdanoch chi parhad

**21** **A ydych yn gweithio mewn gwlad arall neu'n cael budd-daliadau o wlad arall, neu a ydych wedi gwneud hynny ar unrhyw adeg yn ystod y tri mis diwethaf?**

Nac ydw ☐ Os Nac ydw, ewch i gwestiwn 22

Ydw ☐ Os Ydw, rhowch enw'r wlad

Gwlad

**22** **A ydych yn aelod o Luoedd Arfog EF neu'n was sifil sy'n gweithio dramor?**

Nac ydw ☐ Ydw ☐

**23** **Beth yw'ch statws priodasol neu bartneriaeth sifil?**
Ticiwch un blwch sy'n berthnasol. Ystyriwn eich bod yn sengl at ddibenion Budd-dal Plant oni bai eich bod yn byw gyda phartner.

- ☐ Yn briod neu mewn partneriaeth sifil, ewch i gwestiwn 24
- ☐ Yn byw gyda phartner fel petaech yn briod neu mewn partneriaeth sifil ers
  D D M M B B B B ewch i gwestiwn 24
- ☐ Yn weddw, ewch i gwestiwn 34
- ☐ Wedi gwahanu ers
  D D M M B B B B ewch i gwestiwn 34
- ☐ Wedi ysgaru, ewch i gwestiwn 34
- ☐ Yn sengl, ewch i gwestiwn 34

## 2 Ynglyn â'ch partner

**24** **Enw llawn eich partner**

**25** **Dyddiad geni'ch partner**

D D M M B B B B

**26** **Rhif Yswiriant Gwladol eich partner**
Darllenwch dudalen 3 o'r CH2 Nodiadau.

Q Q 1 2 3 4 5 6 A

**27** **Cenedligrwydd eich partner**
Dangosir hwn ar ei basbort os oes un ganddo - er enghraifft, Prydeinig, Gwyddelig, Ffrengig, Pwylaidd.

Cenedligrwydd

## 2 Ynglyn â'ch partner parhad

**28** **Beth yw statws cyflogaeth eich partner?**
Ticiwch y blwch neu'r blychau sy'n berthnasol.

- [ ] Chwilio am waith yn y DU
- [ ] Cyflogedig yn y DU
- [ ] Hunangyflogedig yn y DU
- [ ] Dim un o'r rhain - mae ganddo ddigon o arian i gynnal ei deulu yn y DU

**29** **A yw'ch partner yn aelod o Luoedd Arfog EF neu'n was sifil sy'n gweithio dramor?**

Nac ydy [ ] Ydy [ ]

**30** **A yw'ch partner yn gweithio mewn gwlad arall neu'n cael budd-daliadau o wlad arall ar hyn o bryd, neu a yw wedi gwneud hynny ar unrhyw adeg yn ystod y tri mis diwethaf?**

Nac ydy [ ] Os Nac ydy, ewch i gwestiwn 31

Ydy [ ] Os Ydy, rhowch enw'r wlad

Gwlad

## Ynglyn â'ch partner parhad

**31** **A oes gan eich partner hawl i gael Budd-dal Plant nawr neu a yw'n aros i glywed a all gael Budd-dal Plant?**

Nac oes/Nac ydy [ ] Os Nac oes/Nac ydy, ewch i gwestiwn 34

Oes/Ydy [ ] Os Oes/Ydy, ewch i gwestiwn 32

**32** **Beth yw enw llawn y plentyn hynaf y gall eich partner gael Budd-dal Plant ar ei gyfer?**

**Enw olaf y plentyn**

**Enw cyntaf y plentyn**

**Enwau canol y plentyn**

**33** **Dyddiad geni'r plentyn**

D D M M B B B B

## 3 Plant rydych am hawlio ar eu cyfer

Does dim rhaid i chi roi gwybod i ni am blant rydych eisoes yn cael Budd-dal Plant ar eu cyfer.

### Gwybodaeth bwysig

Os yw'r hawliad hwn am Fudd-dal Plant ar gyfer plentyn newydd-anedig, dylech gofrestru ei enedigaeth cyn i chi anfon eich hawliad atom neu, fel arall, mae'n bosibl y bydd oedi cyn penderfynu ar eich hawliad.

Gellir ôl-ddyddio Budd-dal Plant am hyd at 3 mis.

**Peidiwch ag anfon tystysgrif geni atom, os yw'r naill neu'r llall o'r canlynol yn wir:**

- **cofrestrwyd genedigaeth y plentyn yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban gan fod modd i ni wirio manylion ei enedigaeth**
- **rydych chi neu rywun arall wedi hawlio ar gyfer y plentyn hwn yn y gorffennol**

### Dogfennau sydd eu hangen arnom

Os cofrestrwyd geni'r plentyn yng Ngogledd Iwerddon neu y tu allan i'r DU, anfonwch dystysgrif geni atom ar gyfer pob plentyn yn yr hawliad hwn.

Os yw'ch plentyn wedi'i fabwysiadu dramor, rhaid i chi anfon y dystysgrif mabwysiadu atom.

Os ganwyd unrhyw blentyn yn yr hawliad hwn y tu allan i'r DU, bydd angen i ni hefyd weld ei basbortau neu'r dogfennau teithio a ddefnyddiwyd i gael mynediad i'r DU.

Fel arfer, byddwn yn dychwelyd eich dogfennau cyn pen 4 wythnos.

Os na anfonwch y dogfennau sydd eu hangen arnom gyda'r ffurflen hawlio, bydd oedi cyn penderfynu ar eich hawliad.

**34** **Faint o blant yr ydych yn hawlio ar eu cyfer ar y ffurflen hon?**

**35** **Sawl tystysgrif geni, tystysgrif mabwysiadu y tu allan i'r DU, pasbort a/neu ddogfen teithio wreiddiol yr ydych yn eu hanfon atom?**
Os na fyddwch yn anfon dogfennau gwreiddiol, efallai y bydd oedi cyn penderfynu ar eich hawliad

[ ] Tystysgrifau geni - dylech ond anfon tystysgrif geni atom os cofrestrwyd genedigaeth y plentyn yng Ngogledd Iwerddon neu'r tu allan i'r DU

[ ] Tystysgrifau mabwysiadu - dim ond os oedd y mabwysiadu wedi digwydd y tu allan i'r DU y dylech anfon y rhain

[ ] Pasbortau

[ ] Dogfennau teithio

# 3 Plant rydych am hawlio ar eu cyfer – Plentyn 1

**36** **Enw llawn y plentyn, gan gynnwys enw olaf neu enw teuluol**
Fel y'i dangosir ar y dystysgrif geni neu'r dystysgrif mabwysiadu.

**Enw olaf y plentyn**

**Enw cyntaf y plentyn**

**Enwau canol y plentyn**

**37** **A yw'r plentyn hwn yn wryw neu'n fenyw?**

Gwryw ☐ Benyw ☐

At ddefnydd y swyddfa 3 ☐

**38** **Dyddiad geni'r plentyn**

D D | M M | B B B B

**39** **A yw genedigaeth y plentyn hwn wedi'i chofrestru yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban?**

Nac ydy ☐ Os Nac ydy, anfonwch y dogfennau fel y dangosir ar dudalen 4 y ffurflen hon – 'Dogfennau sydd eu hangen arnom'

Ydy ☐ Os Ydy, a chafodd ei eni yng Nghymru neu Loegr, peidiwch ag anfon unrhyw ddogfennau. **Rhowch y rhif system 9 digid o gornel isaf ochr chwith ei dystysgrif geni** – darllenwch dudalen 4 o'r CH2 Nodiadau

Ydy ☐ Os Ydy, a chafodd ei eni yn yr Alban, peidiwch ag anfon unrhyw ddogfennau. **Rhowch y rhif dosbarth, y flwyddyn a'r rhif cofnod o'i dystysgrif geni** – darllenwch dudalen 4 o'r CH2 Nodiadau

**40** **A yw'r plentyn hwn erioed wedi cael ei adnabod yn ôl unrhyw enw arall?**

Nac ydy ☐ Ydy ☐ Os Ydy, nodwch yr enw arall

Enw arall y plentyn

**41** **A yw'r enw wedi cael ei newid drwy weithred newid enw?**

Naddo ☐ Do ☐

At ddefnydd y swyddfa 4 ☐

**42** **A yw'r plentyn hwn yn:**
Darllenwch dudalen 4 o'r CH2 Nodiadau.

Plentyn genedigol ☐ Plentyn mabwysiedig ☐

Llysblentyn ☐ Dim un o'r rhain ☐

**43** **A ydych chi neu rywun arall erioed wedi hawlio Budd-dal Plant ar gyfer y plentyn hwn?** Darllenwch dudalen 4 o'r CH2 Nodiadau.

Nac ydyn ☐ Os Nac ydyn, ewch i gwestiwn 45

Ydyn ☐ Os Ydyn, ewch i gwestiwn 44

**44** **Beth yw enw a chyfeiriad y person a hawliodd Fudd-dal Plant ar gyfer y plentyn hwn?**

Enw

Cyfeiriad

Cod post

At ddefnydd y swyddfa 5 ☐

**45** **A yw'r plentyn hwn yn byw gyda chi yn y DU?**
Darllenwch dudalen 4 o'r CH2 Nodiadau.

Nac ydy ☐ Os Nac ydy, rhowch enw a chyfeiriad y person y mae'r plentyn yn byw gydag ef

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Ydy ☐ Os Ydy, ewch i gwestiwn 46

At ddefnydd y swyddfa 6 ☐

**46** **A yw'r plentyn hwn wedi byw gyda rhywun arall mewn cyfeiriad gwahanol i chi yn ystod y 12 mis diwethaf?**
Darllenwch dudalen 4 o'r CH2 Nodiadau.

Nac ydy ☐ Os Nac ydy, ewch i gwestiwn 48

Ydy ☐ Os Ydy, rhowch enw, cyfeiriad a rhif ffôn y person hwnnw

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn

**47** **Ar ba ddyddiad daeth y plentyn i fyw gyda chi?**

D D | M M | B B B B

**48** **A ydych yn mabwysiadu neu'n bwriadu mabwysiadu'r plentyn hwn drwy awdurdod lleol?**

Nac ydw ☐ Ydw ☐

At ddefnydd swyddogol yn unig

## 3 Plant rydych am hawlio ar eu cyfer – Plentyn 2

**49** **Enw llawn y plentyn, gan gynnwys enw olaf neu enw teuluol**
Fel y'i dangosir ar y dystysgrif geni neu'r dystysgrif mabwysiadu.

**Enw olaf y plentyn**

**Enw cyntaf y plentyn**

**Enwau canol y plentyn**

**50** **A yw'r plentyn hwn yn wryw neu'n fenyw?**

Gwryw ☐ Benyw ☐

At ddefnydd y swyddfa 7

**51** **Dyddiad geni'r plentyn**

D D M M B B B B

**52** **A yw genedigaeth y plentyn hwn wedi'i chofrestru yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban?**

Nac ydy ☐ Os Nac ydy, anfonwch y dogfennau fel y dangosir ar dudalen 4 y ffurflen hon - 'Dogfennau sydd eu hangen arnom'

Ydy ☐ Os Ydy, a chafodd ei eni yng Nghymru neu Loegr, peidiwch ag anfon unrhyw ddogfennau. **Rhowch y rhif system 9 digid o gornel isaf ochr chwith ei dystysgrif geni** - darllenwch dudalen 4 o'r CH2 Nodiadau

Ydy ☐ Os Ydy, a chafodd ei eni yn yr Alban, peidiwch ag anfon unrhyw ddogfennau. **Rhowch y rhif dosbarth, y flwyddyn a'r rhif cofnod o'i dystysgrif geni** - darllenwch dudalen 4 o'r CH2 Nodiadau

**53** **A yw'r plentyn hwn erioed wedi cael ei adnabod yn ôl unrhyw enw arall?**

Nac ydy ☐ Ydy ☐ Os Ydy, nodwch yr enw arall

Enw arall y plentyn

**54** **A yw'r enw wedi cael ei newid drwy weithred newid enw?**

Naddo ☐ Do ☐

At ddefnydd y swyddfa 8

**55** **A yw'r plentyn hwn yn:**
Darllenwch dudalen 4 o'r CH2 Nodiadau.

Plentyn genedigol ☐ Plentyn mabwysiedig ☐

Llysblentyn ☐ Dim un o'r rhain ☐

**56** **A ydych chi neu rywun arall erioed wedi hawlio Budd-dal Plant ar gyfer y plentyn hwn?** Darllenwch dudalen 4 o'r CH2 Nodiadau.

Nac ydyn ☐ Os Nac ydyn, ewch i gwestiwn 58

Ydyn ☐ Os Ydyn, ewch i gwestiwn 57

**57** **Beth yw enw a chyfeiriad y person a hawliodd Fudd-dal Plant ar gyfer y plentyn hwn?**

Enw

Cyfeiriad

Cod post

At ddefnydd y swyddfa 9

**58** **A yw'r plentyn hwn yn byw gyda chi yn y DU?**
Darllenwch dudalen 4 o'r CH2 Nodiadau.

Nac ydy ☐ Os Nac ydy, rhowch enw a chyfeiriad y person y mae'r plentyn yn byw gydag ef

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Ydy ☐ Os Ydy, ewch i gwestiwn 59

At ddefnydd y swyddfa 10

**59** **A yw'r plentyn hwn wedi byw gyda rhywun arall mewn cyfeiriad gwahanol i chi yn ystod y 12 mis diwethaf?**
Darllenwch dudalen 4 o'r CH2 Nodiadau.

Nac ydy ☐ Os Nac ydy, ewch i gwestiwn 61

Ydy ☐ Os Ydy, rhowch enw, cyfeiriad a rhif ffôn y person hwnnw

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn

**60** **Ar ba ddyddiad daeth y plentyn i fyw gyda chi?**

D D M M B B B B

**61** **A ydych yn mabwysiadu neu'n bwriadu mabwysiadu'r plentyn hwn drwy awdurdod lleol?**

Nac ydw ☐ Ydw ☐

**Os ydych am hawlio ar gyfer rhagor o blant, ewch i dudalen 7 o'r CH2 Nodiadau, a llenwch y ffurflen 'Plant ychwanegol'**

At ddefnydd swyddogol yn unig

## 4 Enillwyr incwm uwch

Dim ond os yw'ch Incwm Net wedi'i Addasu (ANI) unigol chi neu un eich partner dros £60,000 y flwyddyn y dylech ateb cwestiwn 62.

Os yw'ch incwm unigol chi neu incwm unigol eich partner:
- yn fwy nag £80,000 y flwyddyn - bydd tâl treth sy'n gyfwerth â'r taliad Budd-dal Plant yn gymwys, felly efallai na fyddwch am i Fudd-dal Plant gael ei dalu i chi
- rhwng £60,000 ac £80,000 y flwyddyn - bydd tâl treth sy'n llai na'r taliad Budd-dal Plant yn gymwys, felly efallai y byddwch am i Fudd-dal Plant gael ei dalu i chi

Os nad ydych yn siŵr a yw'ch incwm unigol chi neu incwm unigol eich partner yn fwy na £60,000, darllenwch dudalen 2 o'r CH2 Nodiadau.

**62 A ydych am i Fudd-dal Plant gael ei dalu i chi?**
Dim ond os yw'ch incwm unigol chi neu incwm unigol eich partner yn fwy na £60,000 y flwyddyn y dylech ateb y cwestiwn hwn. Darllenwch dudalen 5 o'r CH2 Nodiadau.

Nac ydw ☐ Nid wyf am i Fudd-dal Plant gael ei dalu i mi, ond rwyf am ddiogelu fy Mhensiwn y Wladwriaeth. Ewch i'r datganiad ar dudalen 8

Ydw ☐ Rwyf am i Fudd-dal Plant gael ei dalu i mi. Rwy'n deall efallai y bydd yn rhaid i mi neu fy mhartner dalu tâl Treth Incwm. Ewch i gwestiwn 63

At ddefnydd y swyddfa 11 ☐

## 5 Sut yr hoffech gael eich talu

**63 A ydych am i Fudd-dal Plant gael ei dalu i chi bob wythnos?**

Fel arfer byddwn yn talu Budd-dal Plant bob 4 wythnos i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu.

Mae tudalen 5 o'r CH2 Nodiadau yn rhoi gwybod a oes modd eich talu bob wythnos.

Nac ydw ☐ Os Nac ydw, ewch i gwestiwn 65

Ydw ☐ Os Ydw, ewch i gwestiwn 64

**64 I gael taliadau Budd-dal Plant bob wythnos, ticiwch bob blwch sy'n berthnasol i chi neu'ch partner**

☐ Rwyf yn rhiant sengl

☐ Rwyf i, neu mae fy mhartner, yn cael un neu ragor o'r canlynol:
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm
- Credyd Pensiwn
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn ymwneud ag incwm
- Credyd Cynhwysol

**65 A ydych eisoes yn cael Budd-dal Plant?**

Nac ydw ☐ Os Nac ydw, ewch i gwestiwn 66

Ydw ☐ Os Ydw, byddwn yn talu'ch Budd-dal Plant i'r cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu lle rydym eisoes yn talu'ch Budd-dal Plant. Ewch i'r datganiad ar dudalen 8

## 6 Manylion banc

**66 Ticiwch y blwch sy'n berthnasol i chi**

Darllenwch dudalen 5 o'r CH2 Nodiadau cyn llenwi'r adran hon.

Gallwn dalu Budd-dal Plant i mewn i gyfrif a enwebir gennych os yw'r cyfrif yn gallu cael trosglwyddiad credyd uniongyrchol - er enghraifft, cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu addas.

☐ Mae'r cyfrif yn fy enw i - ewch i gwestiwn 67

☐ Mae'r cyfrif yn enw rhywun arall - rhowch wybod i ni beth yw enw deiliad y cyfrif yn y blwch isod

☐ Mae'r cyfrif mewn enwau ar y cyd - rhowch wybod i ni beth yw enwau deiliaid y cyfrif yn y blwch isod

Enw 1

Enw 2

At ddefnydd y swyddfa 12 ☐ ☐

At ddefnydd y swyddfa 13 ☐

**67 Enw'r banc neu'r gymdeithas adeiladu**

**68 Cod didoli'r gangen.** Darllenwch dudalen 5 o'r CH2 Nodiadau.

☐☐ – ☐☐ – ☐☐

At ddefnydd y swyddfa 14 ☐ ☐

**69 Rhif y cyfrif.** Darllenwch dudalen 5 o'r CH2 Nodiadau.

☐☐☐☐☐☐☐☐

**70 Os yw'r cyfrif gyda chymdeithas adeiladu, rhowch wybod i ni'r rhif rôl neu'r cyfeirnod os oes un gennych**
Darllenwch dudalen 5 o'r CH2 Nodiadau.

**71 Os nad oes gennych gyfrif y gallwn dalu i mewn iddo, rhowch 'X' yn y blwch hwn** ☐

At ddefnydd y swyddfa 15 ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐

**Pwysig**
Llenwch y datganiad ar dudalen 8.

## Dogfennau sydd eu hangen arnom

Os ydych yn hawlio ar gyfer plentyn nad ydych wedi hawlio ar ei gyfer yn flaenorol, bydd angen i chi anfon y canlynol atom:

- y dystysgrif geni os cofrestrwyd yr enedigaeth yng Ngogledd Iwerddon neu'r tu allan i'r DU
- y pasbort neu'r dogfennau teithio a ddefnyddiwyd i ddod i mewn i'r DU, os na chafodd y plentyn ei eni yn y DU
- y dystysgrif mabwysiadu, os ydych wedi mabwysiadu'r plentyn y tu allan i'r DU

Hefyd, mae angen i chi anfon unrhyw dudalennau ychwanegol atom rydych wedi'u llenwi os ydych am hawlio ar gyfer mwy na 2 blentyn.

Os na anfonwch yr holl ddogfennau sydd eu hangen arnom gyda'r ffurflen hawlio, gall fod oedi cyn penderfynu ar eich hawliad. Fodd bynnag, gellid ôl-ddyddio eich taliadau i'r dyddiad y cawn eich hawliad wedi i ni wneud penderfyniad. Bydd dal angen i chi anfon y dogfennau atom cyn gynted ag y gallwch ar ôl cyflwyno eich hawliad.

Sicrhewch fod gennym y cyfeiriad cywir er mwyn dychwelyd eich dogfennau. Os byddwch yn symud heb roi gwybod i ni beth yw'ch cyfeiriad newydd, ni fyddwn yn gallu dychwelyd eich dogfennau ac efallai y byddwn yn eu dinistrio. Os credwn fod unrhyw ddogfennau a anfonwch atom yn annilys, mae'n bosibl y byddwn yn eu cadw.

## Yr hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud nawr

Ar ôl i chi lofnodi a dyddio'r datganiad isod, dychwelwch eich ffurflen ynghyd ag unrhyw ddogfennau sydd eu hangen arnom. Os nad oes gennych amlen bwrpasol, anfonwch eich ffurflen i:

Swyddfa Budd-dal Plant
Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF
HMRC
BX9 1ST

Bydd angen stamp arnoch ar gyfer eich amlen; gwnewch yn siŵr eich bod yn talu'r swm postio cywir. Os ydych yn anfon unrhyw ddogfennau rydych am i ni eu dychwelyd atoch, llenwch y label cyfeiriad (CH3) ac amgaewch ef gyda'ch ffurflen hawlio.

## Yr hyn sy'n digwydd nesaf

Byddwn yn adolygu'ch hawliad ac yn ysgrifennu i roi gwybod i chi a allwch gael Budd-dal Plant a faint y byddwch yn ei gael. Fel arfer, byddwn yn dychwelyd eich dogfennau cyn pen 4 wythnos.

## Help

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar-lein, ewch i GOV.UK a chwilio am 'Child Benefit'.

Os yw'ch amgylchiadau wedi newid, ewch i GOV.UK a chwilio am 'Report changes that affect your Child Benefit' a dewiswch yr opsiwn Cymraeg.

Os na allwch fynd ar-lein neu os oes angen rhagor o help arnoch, gallwch ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900.

Os ydych yn defnyddio Relay UK, deialwch 18001 ac yna 0300 200 3103.

Os ydych dramor
- +44 (0)300 200 1900.

Gallwch hefyd ysgrifennu at:
Swyddfa Budd-dal Plant
Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF
HMRC
BX9 1ST

Bydd angen eich rhif Yswiriant Gwladol arnoch os ydych yn ffonio neu'n ysgrifennu.

Gallwch gael cymorth ychwanegol os yw'ch cyflwr iechyd neu'ch amgylchiadau personol yn ei gwneud hi'n anodd i chi gysylltu â Chyllid a Thollau EF (CThEF).

Ewch i GOV.UK a chwilio am 'Get help from HMRC', ac yna dewis yr opsiwn Cymraeg ar y dudalen berthnasol.

## Datganiad

Ticiwch y blychau sy'n berthnasol i chi a llofnodwch y ffurflen hon i hawlio Budd-dal Plant.

☐ Rwy'n anfon y tystysgrifau geni neu ddogfennau eraill sydd eu hangen arnoch gyda'r ffurflen hon. Nid wyf yn anfon llungopïau. Rwyf yn deall os na fyddaf yn anfon y dogfennau sydd eu hangen arnoch gyda'r ffurflen hawlio hon, bydd oedi cyn penderfynu ar fy hawliad.

☐ Rwyf yn datgan bod yr wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn. Os rhoddaf wybodaeth y gwn nad yw'n gywir neu'n gyflawn, gallwch gymryd camau yn fy erbyn. Byddaf yn rhoi gwybod i chi am newidiadau i'm hamgylchiadau pan fyddant yn digwydd, ac rwy'n deall y gallwn gael fy ngordalu ac efallai y bydd yn rhaid i mi dalu arian yn ôl os na wnaf.

**Llofnod**

**Dyddiad** D D M M B B B B

At ddefnydd y swyddfa 16

## At ddefnydd swyddogol yn unig

| Goheb/Corres | Wedi'i olrhain/Traced | CLI |
|---|---|---|
| | | |

Dogfennau a ddychwelwyd/Documents returned

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tystysgrif geni/Birth certificate | Arferol/Normal | | |
| Pasbort/Passport | Wedi'i gofnodi/Recorded | | |
| Arall/Other | Wedi'i gofrestru/Registered | | |

Dyddiad y daeth yr hawliad i law/
Date claim received

Cyllid & Tollau EF

# Label cyfeiriad – dylech ei lenwi a'i ddychwelyd ynghyd â'ch ffurflen hawlio wedi'i llenwi.

| | |
|---|---|
| | Enw |
| | Cyfeiriad - llinell 1 |
| | Cyfeiriad - llinell 2 |
| | Tref/Dinas |
| | Sir |
| | Cod post |

Gwnewch yn siŵr y dangosir eich cod post yn gywir o fewn y blychau. Er enghraifft, byddai'r cod post XX1 6AA yn cael ei ddangos fel

X X 1 6 A A

- llenwch eich enw a'ch cyfeiriad uchod mewn priflythrennau, gan ddefnyddio pen du
- dychwelwch y label cyfeiriad hwn atom ynghyd â'ch ffurflen hawlio wedi'i llenwi
- bydd angen stamp arnoch ar gyfer yr amlen - sicrhewch eich bod yn talu'r swm postio cywir

**Pwysig – os na anfonwch y label cyfeiriad hwn gyda'ch ffurflen hawlio, gallai gymryd yn hirach i ni anfon eich dogfennau yn ôl atoch ac i ddod i benderfyniad ynglŷn â'ch hawliad.**

**At ddefnydd CThEF yn unig – byddwn yn defnyddio hwn pan fyddwn yn anfon eich dogfennau yn ôl atoch.**

## Eich dogfennau

Diolch am anfon eich ffurflen hawlio atom. Yn amgaeedig mae eich:

- ☐ Tystysgrifau geni
- ☐ Pasbortau
- ☐ Dogfennau teithio
- ☐ Tystysgrifau mabwysiadu
- ☐ Dogfennau eraill

Nid oes angen i chi wneud unrhyw beth - byddwn yn ysgrifennu atoch eto cyn gynted ag y byddwn wedi dod i benderfyniad ynglŷn â'ch hawliad.